

PWYLLGOR CYDWEITHREDOL RHANBARTHOL
BRO MORGANNWG A CHAERDYDD
7 Tachwedd 2012

Yn bresennol:

Y Cyng. Bronwen Brooks - CBM
Miles Punter - CBM
Y Cyng. Lynda Thorne – CDC
Mike Friel – CDC
Michelle Brewer – CDC
Pam Toms – CBM
Frances Beecher – Cymorth
Ceri Meloy – Cymorth

Mark Sheridan – CCC
Fiona Kinghorn – Iechyd Cyhoeddus
Siân Harrop-Griffiths - BIPCF
Peter Greenhill – Profiannaeth
Simon Prothero – LIC
Nathan Cook - LIC

Ymddiheuriadau:

Matt Kennedy – TCC
Dr Siân Griffiths – Iechyd Cyhoeddus

	Gweithredu
<p>Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau Croesawodd y Cyng. Bronwen Brooks (Cadeirydd) bawb i gyfarfod cyntaf Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Bro Morgannwg a Chaerdydd (Y Pwyllgor Cydweithredol).</p> <p>Roedd pawb wedi'i gyflwyno ei hun a'r sefydliad a gynrychiolai a chofnodwyd dau ymddiheuriad.</p>	
<p>Ethol Is-gadeirydd Enwebwyd Frances Beecher (FB) gan Mark Sheridan (MS) ar gyfer ei hethol yn is-gadeirydd y Pwyllgor Cydweithredol a chymeradwywyd hynny gan bawb a oedd yn bresennol.</p>	
<p>Cylch Gorchwyl Cafodd copi drafft o'r cylch gorchwyl ei ddsbarthu i bawb cyn y cyfarfod a chytunwyd arno heb newidiadau.</p> <p>Bydd y drafft terfynol yn cael ei anfon at bob aelod o'r Pwyllgor Cydweithredol.</p>	PT

<p>Ffurflenni Buddiannau Croes</p> <p>Pwysleisiodd y Cyng. Brooks yr angen am ddatgan unrhyw fuddiannau croes ar ddechrau pob cyfarfod o'r Pwyllgor Cydweithredol ac y byddai ffurflenni pwrpasol ar gael ar gyfer yr aelodau.</p>	PAWB
<p>Cyflwyniad Cyngor Bro Morgannwg (copi wedi'i gynnwys)</p> <p>Eglurodd Pam Toms (PT) sut y byddai rhaglen Cefnogi Pobl yn cael ei gweinyddu yn y Fro, gan sôn am y tîm, y broses gynllunio leol, y gwasanaethau presennol, cyflwyniadau cleientiaid bregus yn ystod 2011/12, y flaenoriaeth ar gyfer gwasanaethau newydd, a sut yr oedd y grant presennol oddi wrth Lywodraeth Cymru'n cael ei wario.</p> <p>Tynnodd Peter Greenhill (PG) sylw at y ffaith bod llai o droseddwr wedi dod i sylw'r awdurdodau yn ystod 2011/12 nag a oedd yn cael eu trafod gan y gwasanaeth profiannaeth yn ystod yr un cyfnod. Dywedodd PT fod data ar gyfer cyflwyniadau ac angen am gymorth nas diwallwyd yn cael ei gasglu drwy lenwi ffurflenni asesu anghenion unigol, a chael manylion oddi wrth sefydliadau yn y sectorau statudol a gwirfoddol sy'n gweithio gyda phobl fregus. Sylwodd fod rhai sefydliadau'n dal i fethu â darparu'r wybodaeth hon er eu bod yn mynychu cyfarfodydd cynllunio rhaglen cefnogi pobl. Bydd bylchau yn y wybodaeth o ganlyniad, ac atgoffwyd y sefydliadau hynny o hyn yn gyson am ei bod yn golygu na fydd digon o dystiolaeth yn y pendraw ar gyfer datblygu gwasanaethau newydd.</p> <p>Soniodd PT am broblemau a fydd yn wynebu'r rhaglen yn y dyfodol. Er enghraifft, bydd yn anodd i awdurdodau lleol gwrdd â gofynion Cyfarwyddyd newydd Cefnogi Pobl a hefyd gydymffurfio â'r rheoliadau ariannol a'r archebion sefydlog sy'n berthnasol i wasanaethau sy'n ail-dendro am gontract.</p> <p>Trafodwyd y mater, a chytunwyd y byddwn yn gwahodd Richard Doonan (CLILC), a fu'n cynghori gweithgorau cenedlaethol Cefnogi Pobl ynglŷn â chaffael ar gyfer y cyfarwyddyd, i ddod i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Cydweithredol er mwyn ei drafod ymhellach.</p>	PT
<p>Cyflwyniad Cyngor Caerdydd (copi wedi'i gynnwys)</p> <p>Eglurodd Michelle Brewer (MB) am y gwasanaethau, tîm a phroses gynllunio yng Nghyngor Caerdydd, a soniodd hefyd am y gostyngiad blynyddol o 4% yn ei grant oddi wrth Lywodraeth Cymru yn ystod y pum mlynedd nesaf.</p> <p>Oherwydd y gostyngiad sylweddol hwn yn y gyllideb, eglurodd MB</p>	

<p>y byddai Cyngor Caerdydd yn gofyn i bob darparwr gwasanaethau dderbyn gostyngiad o 4% yn ei nawdd yn ystod 2013/14, a llunio contract â'r Cyngor ar gyfer ei holl wasanaethau. Bydd llythyr yn egluro'r cynnig hwn yn cael ei anfon at y darparwyr gwasanaethau am fod y cynnig wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Cydweithredol erbyn hyn. Bydd y trefniadau hyn yn berthnasol i'n holl wasanaethau mewnol ac yn rhoi amser i'r Cyngor archwilio ffyrdd strategol o ymdopi â gostyngiadau yn y gyllideb yn y dyfodol.</p> <p>Gofynnodd MS a gytunwyd ar amserlen ar gyfer ail-dendro Cynllun Cefnogi Tenantiaid y Cyngor, a chafodd wybod na fyddai hynny'n digwydd cyn Ebrill 2013.</p> <p>Dywedodd Simon Prothero (SP) ei bod yn bwysig i'r holl sectorau gael gwybod yn gynnar am y gostyngiad arfaethedig yng nghyllideb Caerdydd, er mwyn iddynt allu mesur yr effaith ar eu gwasanaethau a'u cleientiaid, yn enwedig lechyd a Diogelwch Cymunedol. Roedd y Pwyllgor Cydweithredol am i Gaerdydd gyflwyno adroddiad ar effaith y toriadau hyn. Awgrymodd SP y dylai'r Pwyllgor Cydweithredol sefydlu grŵp tasg er mwyn cael edrych ar y toriadau am mai dyna a gynigiwyd mewn rhanbarthau eraill.</p> <p>Dywedodd MS am ei fod yn cynrychioli Cartrefi Cymunedol Cymru y byddai'n mynd â manylion am y toriadau arfaethedig i gyfarfod nesaf y grŵp, ac yn anfon ymateb yr aelodau i Gyngor Caerdydd.</p> <p>Tynnodd Fiona Kinghorn (FK) sylw at y Fframwaith Blaenoriaethu sydd gan yr adran lechyd a'r broses benderfynu agored y byddai'r adran honno'n helpu Cyngor Caerdydd i'w defnyddio.</p> <p>Eglurodd SP mai fformiwla ailddosbarthu dros dro'n unig a ddefnyddir ar hyn o bryd, ac y byddai Llywodraeth Cymru'n ei hadolygu yn ystod 2013/14. Mae hyn yn golygu y gallai'r dyraniadau newid ar ôl 2014. Hefyd ni wŷr Llywodraeth Cymru eto faint bydd ei chyllideb oddi wrth y llywodraeth ganolog. Mae'r ffigurau a roddwyd i awdurdodau lleol ar gyfer grantiau Cefnogi Pobl o 2013 ymlaen yn rhai dynodol yn unig.</p>	<p>MB</p> <p>MS</p>
<p>Cysylltu â Defnyddwyr Gwasanaethau Trafodwyd papur opsiynau, a theimlai aelodau ei bod yn bwysig dod i wybod yn gyntaf pa ddulliau y bydd darparwyr ar wahân i'r Cyngor yn eu defnyddio yn y rhanbarth, am fod gan bob grŵp penodol o gleientiaid ei holl ffordd o gysylltu. Dywedodd FB fod penodi hyrwyddwr defnyddwyr gwasanaethau'n sawrio o</p>	

<p>symboleiddiaeth, am fod dyletswydd ar holl aelodau'r Pwyllgor Cydweithredol i sicrhau bod ein ffordd o gysylltu â defnyddwyr yn un ddoeth.</p> <p>Gan hynny, cytunwyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • y byddai ymchwil yn cael ei chynnal i drefniadau yn y rhanbarth ar gyfer cynnwys defnyddwyr gwasanaethau; • y byddai'r Cyd-drefnydd Datblygiad Rhanbarthol newydd (ar ôl ei benodi) yn ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau ac yn datblygu trefniadau ar gyfer eu cynnwys ar y Pwyllgor Cydweithredol. 	<p>PT/MB</p>
<p>Rhaglen Cynllunio ar gyfer y Dyfodol a dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf</p> <p>Cymeradwywyd y rhaglen ddrafft a gynigiwyd, a chofnodwyd y byddai sylwadau defnyddwyr yn cael eu cynnwys ar yr agenda fel mater o arfer.</p> <p>Cytunwyd i gynnal cyfarfodydd o'r Pwyllgor Cydweithredol bob mis am y chwe mis cyntaf, ac y byddai'r cyfarfodydd yn cychwyn am 3pm ar ail ddydd Mercher y mis am y mis cyntaf ac ar ddydd Mercher cyntaf y mis ar ôl hynny. Byddai'r dyddiadau hyn yn cael eu dosbarthu.</p>	<p>PT</p>
<p>Unrhyw faterion eraill</p> <p>Cadarnhaodd Mike Friel (MF) fod Cyngor Caerdydd yn gwneud trefniadau ar gyfer ail-dendro ei holl brosiectau Anabledd Dysgu ar hyn o bryd, ac y byddai'r mater hwnnw'n cael ei gyflwyno ar gyfer ei drafod yn y Pwyllgor Cydweithredol.</p> <p>Rhoddodd MF y wybodaeth ddiweddaraf i ni am brosiect sydd i'w lansio ym mis Rhagfyr, a fydd yn darparu 'un pwynt mynediad' i fwy na 200 o welyau ar gyfer cleientiaid digartref mewn argyfwng yng Nghaerdydd. Bydd y Cyngor yn codi arian ar yr awdurdod lleol priodol pan fydd gan ddefnyddwyr gysylltiad ag ardal y tu allan i Gaerdydd.</p> <p>Rhoddodd SP y newyddion diweddaraf i'r rhai presennol am y pynciau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnydd Bwrdd Ymgynghorol Cenedlaethol Cefnogi Pobl (Y Bwrdd Ymgynghorol) sydd wedi cyfarfod ddwywaith hyd yma. Mae cynnwys defnyddwyr o'r pwys mwyaf iddo ac yn bwysig i'w ffordd o ddylanwadu ar y rhaglen. • Mae aelodau'r Bwrdd Ymgynghorol am ymweld â'r holl Bwyllgorau Cydweithredol er mwyn sicrhau y medr pob un gysylltu'n hwylus â'r Bwrdd Ymgynghorol. 	<p>MF</p>

- Rydym wrthi'n cytuno ar gylch gwaith y Bwrdd Ymgynghori ar hyn o bryd, a byddwn yn ei ddisbarthu cyn gynted ag y deawn i gytundeb terfynol.
- Rydym wedi cychwyn ar yr ymchwil hydredol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, a bron wedi cwblhau'r cyfrifiad o'r holl wasanaethau Cefnogi Pobl. Pan fydd yr ymchwil ar ben, bydd o gymorth mawr i ni feincodi gwasanaethau ym mhob rhan o Gymru.
- Rydym yn dal i lunio'r drefn achredu, a bydd ymgynghori arno am gyfnod byr cyn y Nadolig.
- Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n llunio llyfr gwaith a fydd yn cysoni dulliau o gofnodi nifer y bobl sy'n cael eu trafod gan wasanaethau, ar draws Cymru.
- Bydd papur ar drais yn y cartref, sef 'Ending Violence against Women' yn cael ei gyhoeddi'r mis hwn, a bydd ganddo oblygiadau ar gyfer y digartref.
- Mae goblygiadau yn y Ddeddf Dai newydd ar gyfer y rhaglen Cefnogi Pobl.
- Gallai Mesur newydd Nawdd Cymdeithasol effeithio ar dai â chymorth drwy ei gwneud yn fwy anodd i ni arbed pobl rhag mynd yn ddigartref.
- Cyhoeddir y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Pobl Hŷn cyn bo hir.

Cyfarfod nesaf: 3p.m. Dydd Mercher 12 Rhagfyr, Ystafell Bwyllgora 2, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri.